***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 632

## Gorchymyn Twbercwlosis (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

**Diwygiadau i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o "mangre" mewnosoder—

"ystyr "milfeddyg cymeradwy" ("*approved veterinary inspector*") yw milfeddyg a gymeradwyir yn unol ag erthygl 2A;"; a

(b) yn lle'r diffiniad o "prawf perthnasol" rhodder—

"ystyr "prawf perthnasol" ("*relevant test*") yw—

(a) prawf croen; neu

(b) unrhyw brawf diagnostig arall ar gyfer twbercwlosis a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru;".

(3) Ar ôl erthygl 2 mewnosoder—

"**Cymeradwyo milfeddygon**

**2A.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo milfeddyg—

(a) pan fo'r milfeddyg wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, a

(b) pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod y milfeddyg yn addas i gyflawni swyddogaethau a roddir i filfeddyg cymeradwy gan y Gorchymyn hwn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, ddirymu'r gymeradwyaeth honno, gan roi rhesymau am y dirymiad."

(4) Yn erthygl 12 (profi ar gyfer twbercwlosis)—

(a) ym mharagraff (2) ar ôl y geiriau "ofynion rhesymol arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy";

(b) yn is-baragraff (a) o baragraff (2) ar ôl y gair "arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy";

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Mae'r gofynion ar y ceidwad ym mharagraff (3A) yn gymwys—

(a) pan fo prawf perthnasol wedi ei gynnal ar anifail buchol;

(b) pan fo arolygydd neu filfeddyg cymeradwy wedi darllen canlyniad y prawf hwnnw ac wedi mynegi'r canlyniad hwnnw i'r ceidwad; ac

(**1**) O.S. 2010/1379 (Cy. 122), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2012/2897.

(c) pan fo'r arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy wedi ei fodloni bod darlleniad y prawf yn datgelu bod yr anifail buchol naill ai'n adweithydd, neu'n adweithydd amhendant.

(3A) Y gofynion yw—

(a) na symudir anifail buchol ar y fangre neu o'r fangre lle cedwir yr adweithydd neu'r adweithydd amhendant ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd;

(b) sicrhau bod pob adweithydd ac adweithydd amhendant wedi ei ynysu oddi wrth anifeiliaid eraill;

(c) caniatáu i bob adweithydd gael ei farcio gan y person a ddarllenodd y prawf perthnasol neu gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru;

(ch) peidio â rhoi unrhyw laeth gan fuwch odro sy'n adweithydd mewn tanc llaeth swmp; a

(d) pan fo'r adweithydd yn preswylio mewn mangre gyda buches odro, hysbysu pob prynwr masnachol sy'n prynu llaeth o'r fuches honno bod y fuches odro wedi colli ei statws rhydd rhag twbercwlosis.

(3B) Caiff arolygydd, drwy hysbysiad, ddiwygio neu ddatgymhwyso y gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (3A)(a) neu (b) ar unrhyw adeg."; a

(d) ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

"(8) Rhaid i'r arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy sy'n darllen canlyniad prawf perthnasol sy'n datgelu adweithydd neu adweithydd amhendant adrodd ar y canlyniad prawf hwnnw i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol.

(9) Yn yr erthygl hon—

ystyr "adweithydd amhendant" ("*inconclusive reactor*") yw anifail buchol sy'n datgelu darlleniad nad yw'n negyddol pan gaiff ei brofi ar gyfer twbercwlosis, ond ni chaiff ei ystyried yn adweithydd; ac

ystyr "colli ei statws rhydd rhag twbercwlosis" ("*loss of tuberculosis-free status*") yw nad yw'r fuches bellach yn bodloni'r amodau a osodir yn Atodiad A.I, paragraffau 1 a 2 o Gyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach ryng-Gymunedol mewn anifeiliaid buchol ac anifeiliaid o deulu'r mochyn."

(5) Yn erthygl 13 (profion cyn symud)—

(a) ym mharagraff (1)(b) ar ôl "arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy"; a

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Pan nad yw darlleniad y prawf ym mharagraff (1)(b) yn datgelu canlyniad negyddol ar gyfer twbercwlosis mae'r gofynion yn erthygl 12(3A) yn gymwys."

(6) Ym mharagraff (1) o erthygl 14 (cofnodion o brofion ar gyfer twbercwlosis) ar ôl "arolygydd" mewnosoder "neu filfeddyg cymeradwy".

(7) Yn erthygl 21 (marcio anifeiliaid buchol)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan arolygydd neu filfeddyg cymeradwy rhaid i'r ceidwad farcio unrhyw anifail buchol yn y modd sy'n ofynnol gan yr arolygydd neu'r milfeddyg cymeradwy."; a

(b) ym mharagraff (2) ar ôl "arolygydd" mewnosoder "neu'r milfeddyg cymeradwy".